Barnwch chi ...

Cyfleoedd am yrfa yn y farnwriaeth yng Nghymru a Lloegr

Cam ymlaen i yrfa fel barnwr

Ydych chi'n ystyried gyrfa yn y gyfraith? Os felly, mae cyfle, pan fyddwch wedi ennill digon o brofiad, i chi ystyried gwneud cais i fod yn farnwr.

Mae ar ein cyfundrefn gyfreithiol angen barnwyr o bob carfan o gymdeithas, er mwyn gofalu bod y cyhoedd yn ymddiried yn y gyfundrefn gyfiawnder. Penodir barnwyr mewn dull agored a thryloyw. Yr ydym yn annog ceisiadau o blith grwpiau sydd ar hyn o bryd yn cael eu tangynrychioli yn y farnwriaeth, gan gynnwys merched, lleiafrifoedd ethnig a phobl ag anableddau.

Beth mae barnwyr yn wneud?

Mae barnwyr yn llywyddu dros achosion mewn pob math o wahanol lysoedd – troseddol, sifil a llawer math o dribiwnlysoedd. Yn dibynnu ar yr union benodiad, y llys a'r math o achos, mae ganddynt rolau amrywiol.
Yn eu plith mae:

- paratoi achos
- rheoli achos
- gwrando ar achosion
- ystyried a phenderfynu ar faterion cyfreithiol
- rhoi cyfarwyddiadau i'r rheithgor (mewn achosion troseddol)
- crynhoi achosion
- pennu ceisiadau
- dedfrydu
- rhoi dyfarniadau

Ystod o benodiadau barnwrol

Mae rhyw 9,446 o farnwyr ac aelodau tribiwnlysoedd yng Nghymru a Lloegr (ar 1 Gorffennaf 2005). Mae'r tablau isod yn dangos y mathau o lysoedd sydd a'r categorïau o farnwr sy'n eistedd ynddynt.

Math o Lys	Math o farnwr	Ymdrin â
Uchel Lys	• Barnwyr Uchel Lys • Meistri • Cofrestryddion • Dirprwy Feistri • Dirprwy Gofrestryddion • Barnwyr Rhanbarth/ Dirprwy Farnwyr Rhanbarth sy'n eistedd yn yr Adran Deulu neu Gofrestrfeydd Dosbarth	Yr achosion sifil a theulu mwy cymhleth. Rhennir yr Uchel Lys yn dair adran: Siawnsri, Mainc y Frenhines a'r Teulu. Yn Llundain y mae'r Uchel Lys ond y mae Cofrestrfeydd Dosbarth yr Uchel Lys mewn gwahanol rannau o Gymru a Lloegr.
Llysoedd y Goron	• Barnwyr Cylchdaith • Cofiaduron	Yr achosion troseddol mwy difrifol lle cynhelir treial gerbron barnwr a rheithgor.
Llysoedd Sirol	• Barnwyr Cylchdaith • Barnwyr Rhanbarth • Dirprwy Farnwyr Rhanbarth	Achosion sifil a theulu.
Llysoedd Ynadon	• Barnwyr Rhanbarth (Llysoedd Ynadon) • Dirprwy Farnwyr Rhanbarth (Llysoedd Ynadon)	Achosion troseddol llai difrifol, hefyd achosion teulu a llawer o achosion sifil.
Tribiwnlysoedd	• Aelodau Tribiwnlysoedd	Mae tribiwnlysoedd yn amrywio o ran maint o un i 2,000 aelod. Mae tribiwnlysoedd yn arbenigo mewn maes penodol ac yn setlo llawer math o gais ac anghydfod. Dyma rai o'r tribiwnlysoedd mwyaf: Tribiwnlysoedd Cyllid a Threth, Tribiwnlysoedd Cyflogaeth, Tribiwnlys Lloches a Mewnfudo.

Penodiadau

Swyddi sy'n derbyn ffi

Rhaid i farnwr fel arfer wasanaethu fel barnwr "sy'n derbyn ffi" cyn y gellir ei h/ystyried am swyddi barnwrol cyflogedig. Mae barnwyr sy'n derbyn ffi yn eistedd yn y llysoedd neu mewn tribiwnlysoedd yn rhan-amser, fel arfer am o leiaf bymtheg diwrnod y flwyddyn. Am weddill eu hamser, maent yn dal ati gyda'u gweithgareddau beunyddiol arferol.

Mae penodiad sy'n derbyn ffi yn rhoi cyfle i'r sawl a benodir benderfynu a yw eisiau mynd am swydd gyflogedig (gweler isod) ac a yw'n well ganddynt ryw awdurdodaeth arbennig. Mae hefyd yn rhoi cyfle iddynt gael y profiad ymarferol angenrheidiol i wneud cais.

Penodiad cyflogedig

Mae barnwyr cyflogedig yn gweithio yn ein llysoedd ac yn cael eu cefnogi gan eu cymheiriaid sy'n derbyn ffi.

Bywyd gwaith fel barnwr

Cydbwysedd bywyd a gwaith/gweithio hyblyg

Gall natur hyblyg ac amrywiol gwaith barnwrol wneud gyrfa ar y Fainc yn ddewis ymarferol a llawn boddhad, waeth beth fo'ch cefndir cyfreithiol na'ch amgylchiadau personol.

Mae penodiad fel barnwr yn rhoi cyfle sy'n caniatáu ar gyfer cydbwysedd da rhwng bywyd a gwaith, gan gynnwys wythnos bum diwrnod, oriau gwaith safonol a chyfle i weithio'n rhan-amser, toriadau gyrfa a Chyfnodau Barnwrol Tramor (cyfleoedd i gael swydd fel barnwr dramor).

Cefndiroedd gyrfa heb fod yn draddodiadol

Lle bynnag y bo modd, anogir pobl â chefndir gyrfa ar wahân i rai traddodiadol i ymgeisio. Enghreifftiau o hyn yw pobl o academia a'r sawl fu'n gweithio fel cyfreithwyr i'r llywodraeth.

Beth mae'n gymryd i fod yn farnwr

Mae'n rhaid i ymgeiswyr fodloni cymwysterau a'r gofynion statudol y swydd maent yn ymgeisio amdani. Rhaid iddynt hefyd feddu ar y gallu i arfer barn, proffesiynoldeb ac ymwneud â phobl.

Mae llawer ffordd o gael y profiad priodol ar gyfer swydd barnwr, gan gynnwys gweithio fel cyfreithiwr mewn practis preifat, yn y sector cyhoeddus neu mewn diwydiant. Mae academyddion sy'n dysgu'r gyfraith hefyd yn gynnwys i wneud cais.

Cymwysterau proffesiynol

I gael eich penodi i swydd barnwr ar hyn o bryd, rhaid i chi fod wedi cymhwyso'n llawn fel bargyfreithiwr neu gyfreithiwr am isafswm cyfnod o amser (ar hyn o bryd, saith mlynedd ers cymhwyso), yn dibynnu ar y swydd dan sylw. Cyflwynir deddfwriaeth i leihau'r isafswm i bum mlynedd. Nid yw profiad o eiriolaeth yn ofyniad hanfodol i gael eich penodi i swydd barnwr.

Mae'r Llywodraeth hefyd yn bwriadu deddfu i ganiatáu i Asiantau Patentau Cofrestredig, Twrneiod Nodau Masnach a Chymrodyr Sefydliad y Gweithredwyr Cyfreithiol sydd â'r nifer angenrheidiol o flynyddoedd o brofiad ymgeisio am rai penodiadau.

Teilyngdod

Gwneir penodiadau barnwrol yn llwyr ar sail teilyngdod, waeth beth fo oedran, rhyw, tarddiad ethnig, statws priodasol, tueddfryd rhywiol, ymlyniad gwleidyddol, ffydd neu anabledd.

Gofynion cenedligrwydd

Mae penodiadau barnwrol yn agored yn unig i ddinasyddion y DU, Gweriniaeth Iwerddon neu un o wledydd y Gymanwlad.

Gofynion oedran

Nid oes terfyn oedran isaf i ymgeiswyr am swyddi barnwrol, er bod angen i chi fod wedi cymhwyso fel bargyfreithiwr neu gyfreithiwr am nifer penodol o flynyddoedd.

Anabledd

Gwneir addasiadau rhesymol yn ystod y broses benodi ar gyfer ymgeiswyr â nam. Os penodir hwy, gwneir addasiadau rhesymol hefyd er mwyn gofalu y gall barnwr anabl gymryd y swydd a'i gwneud.

Sut y penodir barnwyr

Ymgeisio am swydd

Ar hyn o bryd, mae pedair rhan i'r broses o gael eich dewis fel ymgeisydd am swydd barnwr: ymgeisio, ymgynghori, didol a chanolfan asesu neu gyfweliad.

Mae'r rhan fwyaf o swyddi barnwrol yn cael eu hysbysebu yn y cyfryngau cenedlaethol a chyfreithiol.

Y mae rhaglen dreigl o gystadlaethau ac fe gewch y manylion ar wefan yr AMC.

Hyfforddi a datblygu

Rhaid i farnwyr newydd eu penodi fynd ar gyrsiau cyflwyno preswyl dwys ac eistedd gyda barnwr profiadol am wythnos. Byddant hefyd yn mynd ar ddyddiau hyfforddi blynyddol a redir gan y Bwrdd Astudiaethau Barnwrol ac fe'u gelwir yn ôl am hyfforddiant parhad bob tair blynedd.

Hefyd, darperir cyrsiau hyfforddi a gloywi rheolaidd i'r sawl sydd eisoes yn farnwyr.

Duncan Birrell,
Cyfreithiwr cyntaf GEG i ddod yn farnwr

“Bum yn gyfreithiwr Gwasanaeth Erlyn y Goron ers 20 mlynedd. Wedi penodiad rhan-amser gyda’r Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl yn 2003, deuthum yn Ddirprwy Farnwr Rhanbarth (Llysoedd Ynadon).

Fel erlynydd, chaf i ddim gwrando ar achosion GEG, ond mae Manceinion yn ddinas fawr. Does yna fyth anhawster cael gwaith i mi heb gysylltiad â GEG.

Fy marn i yw bod cefndir anhraddodiadol yn bwynt gwerthu unigryw. Ac os buoch yn erlynydd cyhyd ag y bum i, mae gennych brofiad helaeth iawn o drosedd a gwybodaeth ddofn a manwl o’r ffordd mae’r system cyfiawnder troseddol yn gweithio.

Fy nghyngor i ddarpar-ymgeiswyr am swydd sy’n dod o gefndir anhraddodiadol yw edrych arno fel mantais yn hytrach nag anfantais – mae gennych rywbeth gwahanol i’w werthu.”

Katharine Marshall,
Barnwr Rhanbarth cyflogedig
(Llysoedd Ynadon),
Gogledd Llundain

“Mae’n haws cadw cydbwysedd rhwng ymrwymiadau teuluol a bod yn farnwr na gyda bod yn fargyfreithiwr neu gyfreithiwr.

Cyn-fargyfreithwraig ydw i. Wedi cael tri o blant yn gynnar yn yr 80au, dychwelais at y gyfraith fel ymgynghorydd cyfreithiol yn y Gwasanaeth Llysoedd Ynadon. Y tro cyntaf i mi feddwl am fod yn farnwr oedd pan ofynnodd gwraig oedd yn ynad i mi pryd oeddwn i’n mynd i wneud cais.

Mae fy awdurdodaeth bresennol yn ymdrin â throseddau, achosion ieuenctid a theuluoedd.

Mae bod yn farnwr yn swydd lle’r ydych yn teimlo mewn gwirionedd y medrwch wneud gwahaniaeth i fywydau pobl; i’r gymuned yn gyffredinol trwy drin yn addas â phobl sy’n fygythiad, neu drwy roi cyfle i unigolion wneud iawn neu newid cyfeiriad eu bywydau.”

John Lafferty,
Cofiadur, Llysoedd y Goron
a Sirol Llundain

“Roeddwn yn rhannol ddall tan ganol fy 20au, yna collais fy ngolwg yn gyfan gwbl.

Doedd hyn ddim yn effeithio ar fy ngwaith fel partner rheoli cwmni o gyfreithwyr, a tydi o ddim yn effeithio ar fy ngwaith presennol fel barnwr. Wedi’r cwbl, rwyf wedi byw gyda’r peth trwy gydol f’oes.

Unwaith i mi ymsefydlu ym mhroffesiwn y gyfraith, doedd fy anabledd erioed yn broblem, ac nid oedd y peth byth yn codi gyda chleientiaid. Yn sicr, ni fu’n anfantais yn fy ngyrfa fel barnwr.

Fel barnwr, mae’n rhoi cryn foddhad i chi wybod mai’r unig ddiben i chi fod yno yw sicrhau tegwch.”

“Mae’n beth da dod yn farnwr yn gymharol ifanc am fod gennych yr holl amser o’ch blaen i ddysgu a gwneud mwy. Hefyd, mae yna ganfyddiad mai hen bobl yw barnwyr i gyd, felly mae’n beth da chwalu’r myth.”

Araba Obodai,
Barnwr Rhanbarth cyflogedig,
Cylchdaith y Gogledd

Mwy o wybodaeth
gwefan: www.judicial-appointments.org.uk
e-bost: becomingajudge@dca.gsi.gov.uk

Mae llyfryn 32 tudalen Step Up to a Judicial Career hefyd ar gael ar y cyfeiriad gwe uchod.

Gall Cymdeithas y Gyfraith a Chyngor y Bar roi cyngor a chyfarwyddyd am yrfa ym mhroffesiwn y gyfraith; edrychwch ar eu gwefannau.

www.lawsociety.org.uk
www.barcouncil.org.uk

Mae'r llyfryn hwn ar gael mewn fformatiau gwahanol o wneud cais i'r cyfeiriad e-bost uchod.